Cyngor Sir Ceredigion **Gofal Cymdeithasol**

# Beth yw Cam-drin Plant?

**…yn gofalu i wneud gwahaniaeth**

# Print Bras neu fformatau eraill ar gael drwy ofyn amdanynt

**ffoniwch**

01545 574000



**neu Ebostiwch**
**cyswllt-socservs@ceredigion.gov.uk**

## Oriau Swyddfa'r Porth Gofal

**Dydd Llun – Dydd Iau: 8.45 y.b. – 5.00 y.p.**
**Dydd Gwener: 8.45 y.b. – 4.30 y.p.**

**Gellir gweld gwybodaeth ynglŷn â gwasanaethau a ddarparir gan Gyngor Sir Ceredigion ar ein gwefan**

Adolygwyd Rhagfyr 2019

# Beth yw Cam-Drin Plant?

# Sut allwch chi helpu?

## Canllaw i aelodau'r cyhoedd er mwyn deall cam-drin plant

# Mae'r wybodaeth hon wedi ei pharatoi ar eich cyfer chi!

**Os ydych yn…**

- Blentyn neu yn berson ifanc
- Rhiant neu yn Warcheidwad
- Perthynas
- Cyflogwr
- Ffrind neu gymydog
- Aelod o'r cyhoedd sy'n bryderus
- Unrhyw un sydd â chyswllt â phlant

**Oherwydd…**

**Ein cyfrifoldeb ni oll yw diogelu plant rhag niwed.**

# Pam fyddech chi'n dymuno derbyn gwybodaeth ynghylch cam-drin plant?

Os ydych yn rhiant neu yn rywun sy'n pryderu am blant, mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o'r gwahanol fathau o gam-drin plant, fel y gallwch ei adnabod a helpu i'w atal.

Amcangyfrifir bod dros 150 o blant yn marw bob blwyddyn yn Lloegr a Chymru o ganlyniad i gam-driniaeth ac esgeulustod. Yn ogystal, mae miloedd o blant yn dioddef o broblemau emosiynol a seicolegol tymor hir oherwydd bod eu rhieni yn eu cam-drin.

Gan amlaf, caiff plant eu cam-drin gan bobl y maent yn eu hadnabod. Ychydig iawn o achosion o gamdriniaeth sy'n codi yn sgil cam-drin gan ddieithrin.

## Mae'n rhaid i bob plentyn…

- Deimlo'n ddiogel a saff
- Bod yn iach a hapus
- Derbyn yr anwyldeb priodol
- Gweld digon o weni
- Derbyn canmoliaeth ac anogaeth
- Medru siarad â rhywun
- Teimlo bod rhywun yn gwrando arno/i
- Teimlo y gall pobl ymddiried ynddo/i
- Cael profiadau newydd
- Teimlo y perchir ei d/theimladau
- Cael gwobrau a moethau achlysurol
- Cael ei (g)warchod rhag niwed

Mae'n ffaith drist bod creulondeb i blant yn digwydd ymhob haen o gymdeithas a gall ddigwydd mewn nifer o ffurfiau. Ychydig iawn o'r ffurfiau yma sy'n dangos arwyddion gweladwy. Ceir 4 math o gamdriniaeth plant ac maent oll yn niweidiol i blant.

## Y mathau o Gamdriniaeth Plant a rhai arwyddion all awgrymu bod Cam-drin yn digwydd

Gall plant a phobl ifanc ddioddef niwed mewn nifer o wahanol ffyrdd. Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn neu berson ifanc drwy eu niweidio neu drwy fethu ag atal niwed. Gall y wybodaeth ganlynol eich cynorthwyo chi benderfynu oes yw plentyn mewn perygl o gael ei g/cham-drin, eu (h)esgeuluso neu dderbyn niwed.

- Mae **Cam-drin Corfforol** yn digwydd pan fydd rhywun yn fwriadol yn anafu plentyn. Mae hyn yn cynnwys bwrw, ysgwyd, gwasgu, llosgi neu gnoi. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys rhoi cyffuriau anaddas neu alcohol neu sylweddau gwenwynig i blentyn

  Gall cam-drin corfforol achosi cleisio, llosgiadau, toriadau mewn esgyrn, anafiadau mewnol a niwed i'r ymennydd. Mewn achosion eithafol, gall achosi marwolaeth.

**Arwyddion allai awgrymu fod cam-drin yn digwydd:**

- Unrhyw gleisio ar faban yn y cyfnod cyn cropian/cerdded
- Nifer o gleisiau mewn gwahanol fannau ar y corff
- Cleisio ag iddo liwiau amrywiol, sy'n awgrymu anafiadau sydd wedi digwydd dro ar ôl tro
- Cleisio ar ffurf patrymau bach fel blaenau bysedd ar y frest, cefn y breichiau neu goesau
- Llosgiadau o unrhyw siâp neu faint
- Anaf nad oes yna reswm digonol drosto
- Gall **Cam-drin Rhywiol** ddigwydd pan fydd rhywun yn gorfodi neu ddwyn perswâd ar blentyn neu berson ifanc

i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol.  Mae e hefyd yn cynnwys gweithgarwch rhywiol digyswllt, er enghraifft dangos pornograffi i blant

Gall cam-drin rhywiol fod yn niweidiol iawn a gall gael effeithiau hirdymor.

**Arwyddion o gam-drin rhywiol posibl:**

- Rhywbeth y mae plentyn wedi ei ddweud wrthych
- Rhywbeth y mae plentyn wedi dweud wrth rywun arall
- Plentyn sy'n ymddwyn mewn modd rhywiol all achosi pryder pan fydd yn chwarae â phlant eraill
- Plentyn yr ymddengys fod ganddo/i wybodaeth amhriodol am ei (h)oedran ynghylch rhyw
- Plentyn all fod yn ymweld â throseddwr rhyw hysbys neu dderbyn gofal ganddo/ganddi
- Mae **Esgeulustod** yn digwydd pan fydd oedolion yn gyson yn methu cwrdd ag anghenion sylfaenol plentyn, megis bwyd, llety, dillad, gofal meddygol, methu amddiffyn plentyn rhag perygl, gadael plant sy'n rhy ifanc i edrych ar ôl eu hunain a pheidio ag ymateb i anghenion mwyaf sylfaenol plentyn

Fel arfer, mae plant sydd wedi eu hesgeuluso yn dangos, rywsut, eu bod yn anhapus. Gallant ymddangos yn fewnblyg neu'n anarferol o ymosodol, neu gallant ddioddef o broblemau iechyd parhaus.

**Arwyddion all awgrymu bod esgeulustod yn digwydd:**

- Cartrefi brwnt neu beryglus neu lle ceir diffyg glendid
- Rhieni sy'n methu ymateb ag anghenion iechyd a datblygiad eu plant
- Plant sy'n ymddangos yn fach o ran maint neu dan eu pwysau
- Plant sy'n gyson yn ymddangos yn flinedig neu'n dioddef o ddiffyg egni
- Plant sy'n dioddef anafiadau'n gyson o ganlyniad i ddiffyg goruchwyliaeth
- Plant sydd wedi eu gadael heb rywun i ofalu amdanynt
- Mae **Cam-drin Emosiynol** yn digwydd pan fydd oedolyn yn methu dangos digon o gariad at eu plant neu fethu talu digon o sylw iddynt. Gall hefyd olygu eu bod yn eu bygwth, gwawdio neu fychanu i'r graddau nes bod y plentyn yn teimlo'n nerfus, mewnblyg, ymosodol neu'n ymddwyn mewn modd cythryblus

  Mae cam-drin emosiynol yn dolurio plant yn ddifrifol a gall effeithio'n ddifrifol ar bersonoliaeth plentyn a b/pherthynas ag eraill yn y dyfodol.

**Arwyddion o niwed emosiynol:**

- Plant sy'n ymddwyn mewn modd eithafol, megis siglo, ysgwyd eu pennau neu orfwyta
- Plant sy'n niweidio'u hunain, megis torri, crafu neu gymryd gorddos
- Plant sy'n ceisio lladd eu hunain
- Plant sy'n rhedeg i ffwrdd o gartref yn barhaus
- Plant sy'n ymddangos yn bryderus, anhapus neu fewnblyg iawn

- Plant sydd, yn ddiwahân, yn chwilio am anwyldeb neu yn ei osgoi

Gall plant ddioddef cam-driniaeth dan law aelod o'r teulu, mewn sefydliad neu gymuned, gan bobl y maent yn eu hadnabod, neu, mewn sefyllfa llai arferol, gan ddieithryn.

## Sut mae cam-drin yn effeithio ar blant?

Gall camdriniaeth gael effaith amrywiol, yn dibynnu ar yr hyn sydd wedi digwydd ac ar y plentyn ei hun. Fodd bynnag, gwyddys y gall effeithio'n andwyol iawn ar nifer o blant a phobl ifanc, a hynny'n gorfforol neu yn emosiynol, a gall hyn barhau drwy eu bywydau.

O ganlyniad, mae'n bwysig iawn ein bod yn ystyried anghenion a phroblemau plant, ac ein bod yn gweithredu pan fyddwn yn pryderu.

Os ydych yn gwybod neu'n amau bod plentyn wedi dioddef niwed, wedi'i (h)esgeuluso neu ddioddef cam-driniaeth, dylech gysylltu ag Adran y Gofal Cymdeithasol: -

**Gallwch gysylltu:** -

Gan ddefnyddio rhif ffôn dydd Gofal Cymdeithasol Ceredigion gan ffonio y Porth Gofal:

**01545 574000**

Mae'r Adran ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau rhwng 8.45 yb a 5.00 yp, ac ar ddydd Gwener rhwng 8.45 yb a 4.30 yp.

Y tu allan i'r oriau yma, ffoniwch:

**0300 4563554**

Gellir cysylltu â Heddlu Dyfed Powys ar y rhif yma:

**101**

**Mae Cyngor Sir Ceredigion yn llwyr gefnogi egwyddor cydraddoldeb ac mae'n cydnabod pwysigrwydd cynnig cyfleoedd manteisio teg ac mae'n hyrwyddo cyfle cyfartal i'r holl ofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth.**

## Gwasanaeth Eiriolaeth

Mae Gwasanaeth Eiriolaeth ar gael a lle bo hynny'n bosib, byddwn yn trefnu i rywun eich cynorthwyo i gyflwyno eich barn wrth i chi ymdrin â ni os nad yw'n bosib i chi wneud hynny eich hun ac os nad oes gennych deulu neu ffrindiau i'ch helpu.

**Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol Ceredigion (CIPA)**
Gall y gwasanaeth hwn eich cynorthwyo chi (neu eich gofalwr) os ydych chi dros 18 oed, yn byw yng Ngheredigion a'ch bod yn derbyn asesiad neu adolygiad ar hyn o bryd o'ch anghenion gofal a chymorth neu fod gennych bryder o ran diogelu.

**0800 206 1387**

Bydd **Eiriolaeth Gorllewin Cymru'n** darparu Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar gyfer pobl yn y gymuned ac ar gyfer cleifion anffurfiol yn Ward Morlais, Ysbyty Glangwilli, Caerfyrddin.

**01437 762935**

www.advocacywestwales.org.uk

admin@advocacywestwales.org.uk

Mae **TGP Cymru** yn darparu help i blant a phobl ifanc er mwyn sicrhau y caiff eu hawliau eu parchu a'u lleisiau eu clywed. Gallant ddarparu gwybodaeth, eiriolaeth, cynrychiolaeth, cyngor a chefnogaeth.

**0808 1682599**

**01545 571865**

midandwestwales@tgpcymru.org.uk

## Rhannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd

Bydd unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Ni fyddwn yn datgelu eich gwybodaeth i unrhyw un nad ydynt yn ymwneud â'ch gofal heb eich caniatâd (oni bai bod yn rhaid i ni wneud hynny

yn unol â’r gyfraith neu os ceir amgylchiadau arbennig, fel eich diogelwch a/neu ddiogelwch eraill).

## Argyfyngau

Os bydd angen help arnoch ar frys y tu allan i oriau agor y Porth Gofal (fel y nodwyd tu fewn clawr y daflen hon), cysylltwch â’n Tîm Argyfwng Tu Allan i Oriau Swyddfa ar:

**0300 4563554**

Mae taflenni eraill yn rhoi manylion am y gwahanol wasanaethau a gynigir gan Gofal Cymdeithasol Ceredigion ar gael drwy ofyn amdanynt o’r Porth Gofal. Os ydych am ragor o wybodaeth, ffoniwch ar:

**01545 574000**

Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych ynghylch cynnwys a chynllun y daflen hon, yn ogystal â'r gwasanaeth yr ydych wedi ei dderbyn. Mae'ch safbwyntiau chi yn bwysig er mwyn sicrhau ein bod yn gallu monitro a gwella'r ansawdd yn ôl yr angen. A fyddech gystal â mynd ati i lenwi'r canlynol:

Enw:
………………………………………………………………………….

Cyfeiriad:
…………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………

Rhif Ffôn: ………………………………   Dyddiad: …………………

Cafwyd taflen gan:
…………………………………………………….……

Fy nghanmoliaeth neu fy nghwyn:

……………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………

(A fyddech gystal â pharhau ar dudalen ar wahân os bydd angen mwy o le arnoch)



Dylech anfon y dudalen hon at:

Porth Gofal
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UE

**Diolch am eich sylwadau**